Dydd Mercher 28 Chwefror 2024: O dan embargo llym tan 12.01am 1 Mawrth 2024

CGGC yn cyhoeddi Prif Weithredwr newydd

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) wedi cyhoeddi heddiw y bydd Dr Lindsay Cordery-Bruce yn cymryd yr awenau fel Prif Weithredwr newydd y corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru.

Lindsay yw Prif Weithredwr elusen ddigartrefedd Cymru, Y Wallich, ar hyn o bryd, rôl y mae wedi bod yn ei gwneud am y chwe blynedd ddiwethaf. Bydd Lindsay yn cymryd drosodd o'r Prif Swyddog Gweithredol presennol, Ruth Marks, ym mis Mai, sy'n ymddeol ar ôl 40 mlynedd yn y sectorau gwirfoddol a chyhoeddus.

Gan wneud y cyhoeddiad ar Ddydd Gŵyl Dewi, dywedodd Dr Neil Wooding CBE, Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr CGGC:

'Mae Lindsay yn dod â chyfoeth o brofiad fel Prif Swyddog Gweithredwr ac arweinydd elusen. Mae ei brwdfrydedd am y sector gwirfoddol yn amlwg a'i dull arwain yn cyd-fynd â'n gwerthoedd i ymddiried yn ein staff a'u grymuso i gefnogi'r sector.

'Mae'n olynydd teilwng i Ruth Marks sydd wedi arwain CGGC am dros naw mlynedd a bod yn ymroddedig i'r sector ehangach drwy gydol ei gyrfa.

‘Ymuna Lindsay â’r mudiad ar ddechrau ein 90 blwyddyn o weithredu ac ar adeg pan mae’r sector gwirfoddol angen i CGGC hyrwyddo ein hachos gyda phartneriaid ledled Cymru a’r DU yn fwy nag erioed.’

Dywedodd Lindsay Cordery-Bruce:

‘Rwyf wrth fy modd ac yn llawn cyffro i ymuno â’r tîm rhagorol yn CGGC. Rwyf wedi bod yn cefnogi CGGC ers blynyddoedd maith, a hoffwn fynegi fy niolch personol i Ruth Marks am ei chefnogaeth ac am bopeth y mae wedi ei dysgu i mi dros y blynyddoedd.

‘Mae gan y sector gwirfoddol lawer o heriau a chyfleoedd o’i flaen, a byddwn ni’n wynebu’r rhain gydag arloesedd a brwdfrydedd. Rwy’n hollol argyhoeddedig fod yr atebion i’r problemau rydyn ni’n eu hwynebu yng Nghymru eisoes o fewn ein cymunedau, a bod modd eu harneisio drwy gyd-gynhyrchu a chynnwys y gymuned.

‘Bydd hwn yn newid mawr i mi ac mae gennyf lawer i’w ddysgu, ond rwy’n ffyddiog y gallwn barhau i fynd ag CGGC o nerth i nerth drwy gydweithio a phartneriaeth.’

YNGLŶN Â LINDSAY

Yn dilyn gyrfa hirfaith yn arbenigo’n benodol ar y maes camddefnyddio sylweddau, mae Lindsay wedi treulio’r chwe blynedd ddiwethaf yn ceisio trechu digartrefedd fel Prif Weithredwr Y Wallich.

Dechreuodd Lindsay ei gyrfa fel gwirfoddolwr ar ôl profi digartrefedd, ac mae wedi gweithio yn y Gwasanaeth Prawf, sefydlu’r gwasanaeth atgyfeirio ar ôl arestiad cysylltiedig ag alcohol cyntaf yn y DU, ac mewn Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gan Lindsay ddoethuriaeth broffesiynol mewn Seicoleg gymhwysol.

Bu Lindsay yn aelod o fwrdd CGGC am wyth mlynedd, gan gamu i lawr ym mis Tachwedd 2023. Mae’n parhau i wasanaethu ar fwrdd Tai Pawb, yn hyrwyddo cydraddoldeb mewn lleoliadau tai. Mae Lindsay yn

gwirfoddoli gyda'r Llinell Gymorth Draenogod, yn ateb galwadau ffôn ac yn adsefydlu draenogod.

Mae Lindsay yn wraig briod hapus i Lisa, a chyda dau lysblentyn, dau gi, pedair iâr a thua 200,000 o wenyn. Yn ei hamser rhydd, mae'n codi pwysau, yn mwynhau paffio ac yn hoff iawn o weithio gyda'i dwylo.

__Diwedd___

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Simon Dowling ar 0300 111 0124.

NODIADAU I OLYGYDDION

- Mae llun proffesiynol o wyneb Lindsay Cordery Bruce i'w ddefnyddio gan y wasg ar gael i'w lawrlwytho - https://we.tl/t-I5tr9C1gtz
- Cyhoeddodd Ruth Marks ei bwriad i ymddeol ym mis Tachwedd 2023
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) yw'r corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer mudiadau gwirfoddol yng Nghymru. Rydym yn bodoli i alluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd. I ddysgu mwy, ewch i www.wcva.cymru

Er mwyn i ni hybu'r sector gwirfoddol yng Nghymru a diweddaru ein cysylltiadau yn y wasg ar newyddion perthnasol gan CGGC, cofnodir eich gwybodaeth ar ein cronfa ddata. Darllenwch ein hysbysiad preifatrwydd, sydd ar wefan CGGC, i ganfod sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, pwy fydd yn gallu ei weld, y sail gyfreithiol dros gadw eich gwybodaeth a'ch hawliau o ran yr wybodaeth hon.

Swyddfa Gofrestredig – Prif Swyddfa: Un Rhodfa'r Gamlas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5BF (Swyddfeydd hefyd yn y Rhyl ac Aberystwyth)
Ffôn: 0300 111 0124
E-bost: help@wcva.cymru

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Elusen gofrestredig 218093
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 425299
Cofrestrwyd yng Nghymru